PCAC PEDW
Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Fel y'i Diwygiwyd)**
**Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016**
**Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016**

Hysbysir drwy hyn bod Rhoscrowther Wind Farm Limited wedi cyflwyno cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru ar gyfer:

Adeiladu a gweithredu tri (3) thyrbin gwynt ag uchder mwyaf o 135m i flaen y llafn, ynghyd â datblygiad atodol sy'n cynnwys cyfadeilad is-orsaf, newidyddion trydan, adeilad rheoli, mynedfeydd newydd i'r safle, traciau mynediad, llawr caled ar gyfer craen, cyfadeilad adeiladu dros dro a gwaith cysylltiedig. Bydd gan y 3 thyrbin gapasiti gosodedig cyfan o 12.9MW.

Mae'r safle wedi'i leoli ar Tir oddi ar Refinery Road, Hundleton, Sir Benfro, SA71 5SJ

Gall aelodau'r cyhoedd weld dogfennau'r cais ar-lein yn

https://llyw.cymru/cais-datblygiad-o-arwyddocad-cenedlaethol-fferm-wynt-rhoscrowther

Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno tystiolaeth wedi dechrau a gall unigolion â buddiant gyflwyno sylwadau i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ar ran Gweinidogion Cymru (mae'r manylion isod) erbyn **10/01/2022.** Bydd yr holl sylwadau'n cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bydd y dyddiad cau wedi mynd heibio.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan gynnwys canllawiau ar gyfer cymunedau, yn:

https://llyw.cymru/datblygiadau-o-arwyddocad-cenedlaethol-dns-canllawiau

Isabel Nethell
Pennaeth Gweithrediadau
Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Adeilad y Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

03000 252 245

PEDW.Seilwaith@llyw.cymru

Dyddiad: **22/11/2021**